# PWYLLGOR CRAFFU LLE, CYNALIADWYEDD A NEWID HINSAWDD

## 3 HYDREF 2023

**PRESENNOL** Cynghorydd K. Madge (Cadeirydd)

**Cynghorwyr (Yn y Siambr):**

| | | | |
|---|---|---|---|
| K. Davies | P. Cooper | D.C. Evans | T.M. Higgins |
| N. Lewis | B.D.J. Phillips | G.B. Thomas | |

**Cynghorwyr (Yn rhithwir):**

| | | |
|---|---|---|
| S.M. Allen | T.A.J. Davies | S. Godfrey-Coles |

**Hefyd yn bresennol (Yn y Siambr):**

- Cynghorydd A. Davies, Y Aelod Cabinet dros Faterion Gwledig, Cydlyniant Cymunedol a Pholisi Cynllunio;
- Cynghorydd A. Vaughan Owen, Yr Aelod Cabinet dros Newid Hinsawdd, Datgarboneiddio a Chynaliadwyedd;
- Cynghorydd E. Thomas, Yr Aelod Cabinet dros Transport, Gwasanaethau Trafnidiaeth,

**Hefyd yn bresennol (Yn y Siambr):**

R. Griffiths, Pennaeth Lle a Chynaliadwyedd;
E. Evans, Prif Swyddog Gwasanaethau Democrataidd;
G. Lewis, Rheolwr Polisi a Strategaeth Gwastraff;
S. Rees, Cyfieithydd Ar Y Pryd;
J. Owen, Swyddog Gwasanaethau Democrataidd.

**Hefyd yn bresennol (Yn rhithwyr):**

I. Macho, Swyddog Bioamrywiaeth;
D. G. Baxter, Rheolwr Tiroedd a Glanhau.

**Siambr, Neuadd y Sir, Caerfyrddin, SA31 1JP ac o bell: 10:00yb - 11:11yb**

**1. YMDDIHEURIADAU AM ABSENOLDEB**

Ni chafwyd ymddiheuriadau am absenoldeb.

**2. DATGANIADAU O FUDDIANNAU PERSONOL GAN GYNNWYS UNRHYW CHWIPIAU PLEIDIAU A RODDIR MEWN YMATEB I UNRHYW EITEM AR YR AGENDA.**

Ni chafwyd dim datganiadau o fuddiant personol.
Ni chafwyd dim datganiadau ynghylch unrhyw chwip waharddedig.

**3. CWESTIYNAU GAN Y CYHOEDD**

Dywedodd y Cadeirydd nad oedd dim cwestiynau wedi dod i law gan y cyhoedd.

## 4. Y WYBODAETH DDIWEDDARAF AM Y STRATEGAETH WASTRAFF

Cafodd y Pwyllgor adroddiad a oedd yn darparu crynodeb o'r newidiadau interim a gyflwynwyd i'r gwasanaeth gwastraff ar 23 Ionawr 2023.

Roedd yr adroddiad, a gyflwynwyd gan yr Aelod Cabinet dros Wasanaethau Trafnidiaeth, Gwastraff a Seilwaith yn cynnwys diweddariad ar ddarpariaeth bresennol y gwasanaethau gwastraff sy'n gwasanaethu 91,000 o aelwydydd.

Dywedwyd ers cyflwyno'r newid interim i'r gwasanaeth gwastraff ym mis Ionawr 2023, bod y ddarpariaeth wedi'i chyflawni drwy'r canlynol:

- Casgliadau ailgylchu sych wythnosol [bagiau glas];
- Casgliadau bob tair wythnos o hyd at dri bag [du] o ddeunydd na ellir ei ailgylchu. Cyflwyno gwasanaeth casglu gwydr i 95% o'r tai yn Sir Gaerfyrddin i gasglu poteli a jariau gwydr o dŷ i dŷ bob tair wythnos;
- gyda gwastraff bwyd yn parhau i gael ei gasglu bob wythnos.

Rhoddodd yr Aelodau ystyriaeth i'r wybodaeth ganlynol yn yr adroddiad:

- Ffigurau perfformiad y mesur interim;
- Adborth yn dilyn cyflwyno'r newidiadau
- Trosolwg o gam dau - Newidiadau i'r Gwasanaeth Gwastraff
- Llywodraethu
- Cerbydau ar gyfer glasbrint o'r casgliadau didoli wrth ymyl y ffordd
- Llinell amser a chyfathrebu

Ymatebwyd fel a ganlyn i'r sylwadau a fynegwyd:-

- Mynegwyd pryder o ran y swm mawr o arian sy'n cael ei wario ar hyn er mwyn cyrraedd y targedau perthnasol. Eglurodd y Rheolwr Strategaeth a Pholisi Gwastraff er bod dyraniad y gyllideb wedi'i drafod yn drwyadl gyda Llywodraeth Cymru ac Aelodau'r Awdurdod, byddai goblygiadau costau o ran peidio â chyrraedd y targedau ailgylchu.

- Wrth longyfarch y cynnydd yn y perfformiad o ran gwastraff sy'n cael ei ailddefnyddio, ei ailgylchu neu ei gompostio, pwysleisiwyd ei bod yn bwysig parhau i gadw ffocws.

- Dywedodd yr Aelod Cabinet dros Newid Hinsawdd, Datgarboneiddio a Chynaliadwyedd fod dyheadau mawr o ran yr economi gylchol gan gynnig darparu rhagor o wybodaeth am hyn i'r Pwyllgor. Cytunodd yr Aelodau y byddai hyn o fudd ac y byddai'n cael ei gynnwys ar y Blaengynllun Gwaith fel sesiwn ddatblygu.

- Cyfeiriwyd at y trosolwg o gam dau yr adroddiad a oedd yn nodi nad oedd y depos gweithredol sef Cillefwr, Glanaman a Trostre yn gallu hwyluso a gweithredu methodoleg y glasbrint ar gyfer y Sir gyfan. Mynegwyd pryder ynglŷn â'r awgrym i gau'r safleoedd hyn. Dywedodd yr Aelod Cabinet dros Wasanaethau Trafnidiaeth, Gwastraff a Seilwaith fod hyn yn gyfnod cynnar a dywedodd y Rheolwr Strategaeth a Pholisi Gwastraff, er nad oedd penderfyniadau pendant wedi'u gwneud, darparwyd sicrwydd y byddai'r gofynion o ran staff yn cael eu bodloni.

**PENDERFYNWYD nodi'r Wybodaeth Ddiweddaraf am y Strategaeth Wastraff a'r cynnydd a wnaed yn ystod cyfnod interim Strategaeth Wastraff Ionawr 2023.**

## 5. ADOLYGIAD GWASTRAFF SWMPUS

Cafodd y Pwyllgor adroddiad am yr Adolygiad Gwastraff Swmpus Roedd yr adroddiad yn cyflwyno cwmpas yr adolygiad o ran y gwasanaeth gwastraff swmpus i'w ystyried a darparu sylwadau rhagarweiniol. Dywedodd yr Aelod Cabinet dros Wasanaethau Trafnidiaeth, Gwastraff a Seilwaith mae'r nod oedd cyflawni i'r eithaf y potensial o ran ailddefnyddio ac ailgylchu eitemau gwastraff swmpus, hyrwyddo cynaliadwyedd, lleihau ôl troed carbon y gwasanaeth, a gwneud cynnydd o ran 'Eto', sef prosiect Economi Gylchol y Cyngor, a mentrau cymunedol eraill tebyg.

Ymatebwyd fel a ganlyn i'r sylwadau a fynegwyd:-

- Cyfeiriwyd at broffil y gwastraff swmpus o ran eitemau a phwysau yn yr adroddiad. Teimlwyd bod y 69% o bwysau amcangyfrifedig yn cael ei briodoli'n bennaf i ddodrefn rhatach nad oedd o wneuthuriad cystal â'r dodrefn o safon uchel gan achosi cyfradd gwaredu uwch. Dywedwyd y dylid buddsoddi mwy i annog a chynghori'r cyhoedd ar sut y gallent gynnal a gofalu am eu dodrefn, a fyddai yn ei dro yn para'n hirach gan osgoi'r gyfradd uchel o wastraff swmpus.

  Roedd yr Aelod Cabinet dros Newid Hinsawdd, Datgarboneiddio a Chynaliadwyedd wrth nodi'r heriau yn cydnabod bod llawer mwy y gellid ei gyflawni.

- Dywedwyd y gellid defnyddio mannau gwag mawr fel Debenhams yng Nghaerfyrddin fel canolfan atgyweirio ac y gellid gwella'r Cyfeiriadur Atgyweirio ar-lein i ddarparu rhagor o wybodaeth i'r cyhoedd ar ba eitemau y gellir eu trwsio ble.

**PENDERFYNWYD YN UNFRYDOL:**

**5.1 derbyn yr Adolygiad Gwastraff Swmpus;**
**5.2 bod swyddogion yn nodi sylwadau'r Pwyllgor ar yr opsiynau posibl ar gyfer y Gwasanaeth Casglu Gwastraff Swmpus yn y dyfodol yn ystod y cam ymgysylltu cynnar hwn.**

## 6. STRATEGAETH DRAFFT AR GYFER RHEOLI GLASWELLTIR I BRYFED PEILLIO

Cafodd y Pwyllgor adroddiad a oedd yn atodi'r strategaeth ddrafft ar gyfer rheoli glaswelltir ar gyfer peillwyr ar ystâd Cyngor Sir Caerfyrddin ar gyfer 2023. Wrth gyflwyno'r adroddiad, roedd yr Aelod Cabinet Newid Hinsawdd, Datgarboneiddio a Chynaliadwyedd wedi tynnu sylw at y ffaith fod y Cyngor hwn wedi nodi ei uchelgais fel rhan o Ddatganiad Gweledigaeth y Cabinet i gynyddu bioamrywiaeth ar yr holl dir sy'n eiddo i'r Cyngor, a chydnabod y gydberthynas gref rhwng newid hinsawdd, colli bioamrywiaeth a llesiant pobl.

Dywedwyd ei fod yn gyfle da i rannu'r strategaeth ddrafft â'r Pwyllgor yn ystod camau cynnar ei ddatblygiad.

Dywedwyd wrth Aelodau'r Pwyllgor fod y strategaeth ddrafft yn ystyried glaswelltiroedd amwynder, tir ysgolion, y portffolio adfywio a'r portffolio tai ond nid oedd fodd bynnag yn cynnwys perthi ac ymylon ffyrdd na thir fferm.

Ymatebwyd fel a ganlyn i'r sylwadau a fynegwyd:-

- Mynegwyd nifer o sylwadau wrth gydnabod y dirywiad yn y rhywogaeth a chymeradwywyd y ffaith fod y strategaeth yn cynnwys cynnydd mewn blodau gwyllt a fyddai yn ei dro yn gwneud gwahaniaeth o ran cynyddu gwenyn, ieir bach yr haf a rhywogaethau eraill.

- Adroddwyd bod darnau o laswellt, yn cynnwys pabïau, wedi cael eu torri yn ystod toriad glaswellt a oedd wedi'i drefnu. Pan gafodd ei herio dywedodd y gweithredwr fod y glaswellt yn cael ei dorri fel rhan o amserlen. Dywedodd yr Aelod Cabinet fod hwn yn faes ar gyfer gwella'n barhaus. Eglurodd y Pennaeth Lle a Chynaliadwyedd fod glaswellt amwynder yn hanesyddol yn cael ei dorri am resymau esthetig, fodd bynnag, roedd newidiadau'n cael eu gwneud wrth ystyried amseriad y toriadau i roi amser i flodau hadu, ffawna i atgynhyrchu ac i'r pridd a natur i ffynnu. Trwy arweinyddiaeth a chyfarwyddyd mae nawr yn gyfle da i newid ar gyfer y dyfodol. Pwysleisiodd y Rheolwr Tiroedd a Glanhau nad dyma'r gyfarwyddeb oedd yn cael ei roi ar hyn o bryd ac y byddai ymdrech ar y cyd i hyfforddi staff a chodi ymwybyddiaeth yn cael ei wneud.

- Rhoddwyd clod i bawb a fu'n rhan o ddatblygu'r Strategaeth.

- Mewn ymateb i ymholiad ynghylch gweithio gydag Eco-bwyllgorau ysgolion, dywedodd y Swyddog Bioamrywiaeth fod yr adran yn aml yn gweithio gydag ysgolion yn unigol, pan fyddant yn cysylltu â'r adran am gyngor a hefyd gyda'r Grŵp Gweithredu Ysgolion. Adroddwyd mai disgyblion yr ysgolion yn aml sy'n pwyso am wneud mwy o waith mewn meysydd o'r fath. Yn ogystal, mae Cynghorau Tref a Chymuned wedi gwneud cryn dipyn o waith yn dilyn ceisiadau llwyddiannus am gyllid grant.

- Dywedodd y Swyddog Bioamrywiaeth fod y Cyngor wedi buddsoddi mewn offer torri a chasglu newydd i weithio tuag at weithredu'r strategaeth.

- Roedd y Pennaeth Lle a Chynaliadwyedd wedi nodi mai'r agwedd bwysig oedd y gwaith cydweithredol ac eglurodd mai cam cyntaf y strategaeth oedd casglu tystiolaeth, a gosod polisi y byddai asesiadau effaith, cost ac ardal yn cael eu cwblhau dros gyfnod yr Hydref. Byddai dull ymgysylltu cadarn wedi'i dargedu gyda'r cymunedau hefyd yn flaenoriaeth.

- Gofynnwyd a oedd cynllun neu sgôp i gynnwys clybiau chwaraeon ac ardaloedd eraill, nid yn unig tir sy'n eiddo i Gyngor Sir Caerfyrddin neu'n cael ei reoli ganddo? Dywedodd y Swyddog Bioamrywiaeth mai bwriad y strategaeth yw y gallai gael ei mabwysiadu gan Gynghorau Tref a Chymuned yn ogystal â phartneriaid y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus. O ran clybiau a chymdeithasau chwaraeon, dywedwyd bod yr adran wedi gweithio'n llwyddiannus gydag un gymdeithas chwaraeon hyd yma a byddai rhagor o waith gyda chlybiau chwaraeon ar draws y Sir yn cael ei groesawu.

- Mewn ymateb i ymholiad ynghylch Jac y Neidiwr, eglurodd y swyddog Bioamrywiaeth ei fod wedi'i restru yn yr un modd â Chlymog Japan - sef rhywogaeth ymledol, anfrodorol ac er bod manteision i beillwyr wrth iddynt flodeuo, roedd ar hyn o bryd yn un o'r rhywogaethau ymledol a oedd yn ymledu fwyaf. Felly, anogir i dynnu'r rhywogaeth cyn iddo ddatblygu'r blodyn er mwyn osgoi lledaenu hadau a ellid ei ystyried yn weithred anghyfreithlon o dan Deddf Bywyd Gwyllt a Chefn Gwlad 1981.

**PENDERFYNWYD YN UNFRYDOL dderbyn y Strategaeth Ddrafft ar gyfer Rheoli Glaswelltir i Bryfed Peillio.**

## 7. ATGYFEIRIAD GAN Y PWYLLGOR CRAFFU CYMUNEDAU, CARTREFI AC ADFYWIO - MEHEFIN 2023

Trafododd y Pwyllgor atgyfeiriad gan y Pwyllgor Craffu Cymunedau, Cartrefi ac Adfywio a benderfynwyd arno yn ei gyfarfod a gynhaliwyd ar 29 Mehefin 2023. Roedd yr atgyfeiriad yn gofyn i'r Pwyllgor Craffu Lle, Cynaliadwyedd a Newid Hinsawdd edrych ar y mater ehangach o effeithlonrwydd ynni a chynhyrchu ynni mewn perthynas â stoc tai hanesyddol y sir.

Eglurodd yr Aelod Cabinet dros Newid Hinsawdd, Datgarboneiddio a Chynaliadwyedd fod yr atgyfeiriad yn ymwneud ag adolygiad o ardaloedd cadwraeth o dan gylch gwaith y polisi cynllunio. Yng nghyd-destun y polisi cynllunio, bu'r Pwyllgor Craffu Cymunedau, Cartrefi ac Adfywio hefyd yn trafod y mater pwysig ynghylch mesurau effeithlonrwydd ynni gan eu bod yn ymwneud ag adeiladau rhestredig ledled Sir Gaerfyrddin.

**PENDERFYNWYD YN UNFRYDOL:**

**7.1 Derbyn y mater a gyfeiriwyd gan y Pwyllgor Craffu Cymunedau, Cartrefi ac Adfywio - Mehefin 2023.**

**7.2 Ychwanegu adroddiad sy'n darparu data a gwybodaeth am effeithlonrwydd ynni a chynhyrchu ynni mewn perthynas â stoc dai hanesyddol y sir at Flaengynllun Gwaith y Pwyllgor.**

## 8. EITEMAU AR GYFER Y DYFODOL

Cafodd y Pwyllgor restr o'r eitemau a fyddai'n cael eu hystyried yn ei gyfarfod nesaf ar 23 Tachwedd 2023.

**PENDERFYNWYD YN UNFRYDOL dderbyn y rhestr o'r eitemau i'w hystyried yng nghyfarfod nesaf y Pwyllgor ar 23 Tachwedd 2023.**

## 9. LLOFNODI YN GOFNOD CYWIR COFNODION Y CYFARFOD A GYNHALIWYD AR 21 GORFFENNAF 2023

**PENDERFYNWYD bod cofnodion cyfarfod y Pwyllgor a gynhaliwyd ar 21 Gorffennaf, 2023 yn cael eu derbyn.**

| | |
|---|---|
| **CADEIRYDD** | **DYDDIAD** |